

PLATIAU COFRESTRU

a'r Prawf MOT

Atebion i'ch Cwestiynau

*Asiantaeth
weithredol o'r
Adran Drafnidiaeth*



Pam fod platiau cofrestru'n cael eu harchwilio mewn prawf MOT?

Caiff platiau cofrestru eu harchwilio yn y prawf MOT i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag agweddau penodol o Reoliadau Cerbydau'r Ffordd (Arddangos Rhifau Cofrestru) 2001, fel y'u diwygiwyd. Mae'n hanfodol i bob cerbyd ddangos y rhif cofrestru cywir a bod y platiau'n ddiogel ac i'w gweld yn glir.

Er budd adroddiadau cywir gan lygad-dystion, ac i sicrhau bod camerâu gorfodi traffig a systemau codi tâl am ddefnyddio ffyrdd yn gweithio fel y'u bwriadwyd. Yn amlwg y mae'n angenrheidiol i blatiau cofrestru gydymffurfio â'r safon ofynnol.

Pa gerbydau sy'n cael eu heffeithio?

Mae archwiliadau ar blatiau cofrestru'n berthnasol i gerbydau ym mhob dosbarth prawf MOT sy'n cynnwys beiciau modur, cerbydau, cerbydau nwyddau ysgafn a bysiau preifat. Fodd bynnag, nid yw'r prawf yn berthnasol i gerbydau a gofrestrwyd dramor, cerbydau diplomyddol na cherbydau a ddefnyddir gan y lluoedd arfog.

Beth yw gofynion y prawf MOT?

Bydd profwyr MOT yn cynnal archwiliad gweledol cyflawn mewn perthynas â chyflwr y platiau ac yn sicrhau nad yw'r meintiau gofynnol yn amlwg anghywir.

Byddant hefyd yn gwirio fod y platiau'n bresennol, yn ddiogel, yn arddangos y cofrestriad cywir a ddim yn debygol o gael eu camddarllen oherwydd difrod, dirywiad neu am eu bod yn cael eu cuddio (gan belen dowio, er enghraifft). Yn ogystal, unrhyw nodwedd sy'n achosi newid gwedd neu eglurder unrhyw un o'r nodau, fel na fydd mor hawdd sefydlu pa gerbyd ydyw mewn gwirionedd, yn annerbyniol.

Nid yw'n rhan o'r prawf MOT i wirio fod y platiau cofrestru a gyflenwyd ar neu ar ôl 1 Medi 2001 yn arddangos y marc BS AU 145d, nac enw a chod post cyflenwr y plât cofrestru. Fodd bynnag, mae'r marciau hyn yn ofyniad cyfreithiol a byddwch yn cyflawni trosedd oni chânt eu harddangos.

A oes unrhyw archwiliadau ychwanegol ar blatiau dau bwrpas?

Mae llawer o gerbydau'n arddangos platiau dau bwrpas sy'n dangos symbol adnabod rhyngwladol y cerbyd yn ogystal â'r rhif cofrestru. Nid yw marciau o'r fath yn rhan o'r prawf MOT ond, yn gyfreithiol, dim ond y symbol neu'r faner rhyngwladol a ganiateir a gaiff ei harddangos. **Ni chaniateir arwyddluniau eraill, megis rhai timau pêl-droed ac yn y blaen.**

Beth os oes gennyf rif cofrestru arbennig oddi ar gerbyd hyn?

Mae'r gofynion MOT yn dibynnu ar ddyddiad cofrestru'r cerbyd am y tro cyntaf. Felly, ni yw'r hen fath o blatiau cofrestru du ac arian a ganiateir ar gerbydau cyn 1973 yn cael eu caniatáu ar gerbyd a gofrestrwyd gyntaf ar neu ar ôl 1af Ionawr 1973.

Er nad yw'n rhan o'r prawf MOT, mae'n bwysig cofio y bydd yn ofynnol i blatiau arbennig o gerbydau hyn a osodwyd ar gerbyd a gofrestrwyd gyntaf ar neu ar ôl 1af Medi 2001 arddangos y marc BS AU 145d, ac enw a chod post cyflenwr y plât cofrestru.

Ydy'r gofynion hyn yn berthnasol i bob cerbyd sydd wedi'i gofrestru yn y DU?

Ydy. Bu i Ddeddf Diogelwch y Ffyrdd 2006 ymestyn y cynllun Cofrestr Cyflenwyr Platiau Rhif i'r Alban a Gogledd Iwerddon o 1 Tachwedd 2008, yn ogystal â Chymru a Lloegr. O'r dyddiad hwn, bydd yn drosedd cyflenwi platiau rhif nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefan:

www.direct.gov.uk/moduro

Cysylltwch â ni:

0300 123 9000*

enquiries@vosa.gov.uk

* Codir cyfradd isel am alwadau a ddarperir gan BT.
Gall cyfraddau darparwyr eraill amrywio.

Mae'n ofynnol i platiau cofrestru a osodir ar gerbydau neu feiciau modur gael eu harddangos yn gywir, fel y nodir isod:



Rhaid i'r platiau ar gerbydau a gofrestrwyd gyntaf ar neu ar ôl 1af Ionawr 1973 fod y lliw cywir - gwyn ar y tu blaen a melyn ar y tu ôl gyda nodau du.

Ni chaniateir i feiciau modur ddefnyddio plât un llinell; fodd bynnag, caniateir i gerbydau a beiciau modur a gofrestrwyd gyntaf cyn 1af Medi 2001 arddangos platiau cofrestru mewn fformat tair llinell.

Enghreifftiau o fformatau a fydd yn methu'r prawf MOT:



Lliw anghywir



Nodau ar osgo



Y ffont yn anghywir ac yn rhy fach



Wedi'i ddifrodi neu wedi dirywio